

2014 Rhif (Cy.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

**Gorchymyn Cefnffordd yr A470
(Ffordd Llanrwst, Llansanffraid
Glan Conwy, Conwy) (Gwahardd
Aros) 2014**

Gwnaed 31 Mawrth 2014

Yn dod i rym 7 Ebrill 2014

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Maentwrog – Man i'r Dwyrain o Gonwy (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2), 4(2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “Deddf 1984”) a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Ebrill 2014. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Ffordd Llanrwst, Llansanffraid Glan Conwy, Conwy) (Gwahardd Aros) 2014.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn -

mae i “bathodyn person anabl” (“*disabled person's badge*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 2 o Reoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000(2);

mae i “disg barcio” (“*parking disc*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 8(5) o Reoliadau Gorchymynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000(3).

(2) At ddiben y Gorchymyn hwn bernir bod cerbyd yn arddangos:

(i) bathodyn person anabl yn y lle perthnasol:

- (a) os yw'r bathodyn, yn achos cerbyd ac iddo ddangosfwrdd neu banel deialau, yn cael ei arddangos arno fel bod tu blaen y bathodyn yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; neu
 - (b) os yw'r bathodyn, yn achos cerbyd nad oes iddo ddangosfwrdd na phanel deialau, yn cael ei arddangos mewn lle amlwg yn y cerbyd neu arno fel bod tu blaen y bathodyn yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; a
- (ii) disg barcio yn y lle perthnasol:
- (a) os yw'r ddisg, yn achos cerbyd ac iddo ddangosfwrdd neu banel deialau, yn cael ei arddangos arno fel bod y cyfnod o chwarter awr pan ddechreuodd y cyfnod aros yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; neu
 - (b) os yw'r ddisg, yn achos cerbyd nad oes iddo ddangosfwrdd na phanel deialau, yn cael ei arddangos mewn lle amlwg yn y cerbyd neu arno fel bod y cyfnod o chwarter awr pan ddechreuodd y cyfnod aros yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwahardd

3. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 4, ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar ymylon y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

Esemptiadau

4. (1) Ni fydd dim yn erthygl 3 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar ymylon y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen cyhyd ag y gall fod yn angenrheidiol i alluogi:

- (a) person i fynd i mewn i gerbyd, neu i ddod allan ohono;
- (b) nwyddau i gael eu llwytho ar y cerbyd neu eu dadlwytho ohono;
- (c) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y diben hwnnw ar unrhyw ffordd arall, i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r

gweithrediadau a ganlyn;

- (i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;
- (ii) symud unrhyw rwystr i draffig;
- (iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darnau hynny o'r ffordd; neu
- (iv) gosod, codi, newid, neu drwsio ar y darnau hynny o'r gefnffordd, neu ar dir cyfagos iddynt, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw offer ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw linell deagraffig fel y'i diffinnir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003(4);

(ch) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y dibenion hynny ar unrhyw ffordd arall, i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol;

(d) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej ar y darn hwnnw o'r gefnffordd neu'n gyfagos iddo;

(dd) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu

(e) y cerbyd i stopio:

- (i) pan fydd yn ofynnol i'r person sy'n ei reoli stopio yn ôl y gyfraith;
- (ii) pan fydd rhaid i'r person sy'n ei reoli stopio er mwyn osgoi damwain; neu
- (iii) pan fydd y person sy'n ei reoli yn cael ei rwystro rhag mynd yn ei flaen gan amgylchiadau y tu allan i'w reolaeth.

5. Ni fydd dim yn erthygl 3 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu ganiatáu i gerbyd person anabl y mae bathodyn person anabl a disg barcio (y mae'r gyrrwr, neu berson arall sy'n gofalu am y cerbyd, wedi marcio arnynt yr amser pan ddechreuodd y cyfnod aros) yn cael eu harddangos yn y lle perthnasol arno aros ar ymylon y darnau o'r gefnffordd y cyfeirir atynt yn yr Atodlen.

6. Mae'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau a osodir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at unrhyw gyfyngiad neu ofyniad a osodwyd gan unrhyw Reoliadau a wnaed neu sy'n cael effaith fel petaent wedi eu gwneud o dan Ddeddf 1984 neu unrhyw

ddeddfiad arall, ac nid yn rhanddirymiad o'r cyfyngiad neu'r gofyniad hwnnw.

Dirymu

7. Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Ffordd Conwy, Glan Conwy, Gwynedd) (Gwahardd Aros) 1994(5) drwy hyn wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 31 Mawrth 2014

S Hague

SHEENA HAGUE

Dirprwy Gyfarwyddwr
Is-adran Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), adran 168 ac Atodlen 8, paragraffau 17 a 18. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(2) O.S. 2000/1786.

(3) O.S. 2000/1785.

(4) 2003 p.21.

(5) O.S. 1994/3019.

YR ATODLEN

GWAHARDD AROS

Ochr orllewinol y darn hwnnw o gefnffordd a elwir Ffordd Llanrwst sy'n ymestyn o bwynt 89 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â Than yr Eglwys am bellter o 199 o fetrau tua'r gogledd hyd at bwynt 110 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â Than yr Eglwys.

Ochr ddwyreiniol y darn hwnnw o gefnffordd a elwir Ffordd Llanrwst sy'n ymestyn o bwynt 41 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â Than yr Eglwys am bellter o 94 o fetrau tua'r gogledd hyd at bwynt 53 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â Than yr Eglwys.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470
(FFORDD LLANRWST, LLANSANFFRAID
GLAN CONWY, CONWY) (GWAHARDD AROS)
2014**

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn, a ddaw i rym ar 7 Ebrill 2014, o dan adrannau 1(1), 2(1) a (2), 4(2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd aros ar ymylon y darnau o Gefnffordd yr A470 Maentwrog – Man i'r Dwyrain o Gonwy (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") yn Llansanffraid Glan Conwy yn Sir Conwy, fel y'u pennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Ar hyn o bryd, gwaherddir aros ar rai o'r darnau o'r gefnffordd o dan sylw yn rhinwedd Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Ffordd Conwy, Glan Conwy, Gwynedd) (Gwahardd Aros) 1994 a gaiff ei ddirymu a'i ailddeddfu gan y Gorchymyn hwn.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 3 Ebrill 2014, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r plan yn ystod oriau swyddfa arferol yn Swyddfa Bost Cyffordd Llandudno, 163 Ffordd Conwy, Cyffordd Llandudno, Conwy LL31 9EG neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1127102.

Os yw unrhyw berson yn dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn, neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo, ar y seiliau:

- a. nad yw o fewn pwerau Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984; neu
- b. bod ei fuddiant wedi ei niweidio'n sylweddol o ganlyniad i fethiant i gydymffurfio ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf,

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos ar ôl 3 Ebrill 2014, wneud cais i'r Uchel Lys yn gofyn am atal neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth a geir ynddo.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad yn www.cymru.gov.uk (Detholer: 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Offerynnau Statudol Lleol', 'Gorchmynion Traffig Parhaol', '2014').

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D Burnell

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

GWAHARDD AROS

Ochr orllewinol y darn hwnnw o gefnffordd a elwir Ffordd Llanrwst sy'n ymestyn o bwynt 89 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â Than yr Eglwys am bellter o 199 o fetrau tua'r gogledd hyd at bwynt 110 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â Than yr Eglwys.

Ochr ddwyreiniol y darn hwnnw o gefnffordd a elwir Ffordd Llanrwst sy'n ymestyn o bwynt 41 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â Than yr Eglwys am bellter o 94 o fetrau tua'r gogledd hyd at bwynt 53 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â Than yr Eglwys.